
# Cyfweliad




**Cyfwelydd:** Croeso i 'Siarad Rygbi!', y rhaglen sy'n datgelu pob cyfrinach. Un o'r de wyt ti, Shane, tipyn gwahanol i fi ac rwyt ti'n dipyn iau hefyd!

**Shane:** Diolch. Ie. Ges i fy ngeni yn Nhreforys wrth Abertawe ar 26 o Chwefror 1977 ond ges i fy magu yng Nglan Aman ac i Ysgol Gyfun Dyffryn Aman yr es i.

**Cyfwelydd:** Pryd ddechreuaist ti chwarae rygbi?

**Shane:** Pan o'n i yn yr ysgol ro'n nhw'n dweud mod i'n rhy fach i chwarae rygbi felly pêl-droed amdani. Fe fues i'n chwarae i Cwmaman United am flynyddoedd ond ces wahoddiad i chwarae rygbi gyda fy ffrindiau yn Aman United RFC ac enillon ni 82 pwynt a sgories i 5 cais.

**Cyfwelydd:** Ac o Aman United yr est ti i Gastellnedd at Lyn Jones?

**Shane:** Ie. Am £7,500 y flwyddyn, rhywbeth yn debyg i f'nghyflog yn y Ganolfan Waith.

**Cyfwelydd:** Yn erbyn Ffrainc yn y Chwe Gwlad yn 1999-2000 yr enillaist ti dy gap cyntaf. Sut deimlad oedd hynny?

**Shane:** Teimlad o fod eisiau mwy! 23 o'n i ac yn pwyso ychydig dros 11 stôn. Roedd hynny'n fy mhoeni. Fe weithies i'n galed i geisio ennill pwysau ond fe effeithiodd hynny ar fy chwarae a ches i anafiadau i linyn yr âr.

**Cyfwelydd:** Pa flwyddyn sy'n aros fwyaf yn y cof?

**Shane:** Anodd dweud. Roedd 2005 yn gyffrous. Ennill y Grand Slam yn y Chwe Gwlad a sgorio yn erbyn yr Eidal, yr Alban a Lloegr ac yna taith y Llewod i Seland Newydd. Ond pinacl y flwyddyn oedd priodi Gail ar Ragfyr 23 yn eglwys Twyn yn Garnant. Roedden ni'n gariadon ers pan oedden ni yn yr ysgol!

**Cyfwelydd:** Dyna'r flwyddyn y cest ti dy gyhuddo o ymosod ar rywun yng Nghyprus.

**Shane:** Ie. Ar gam. Fe gollodd yr heddlu fy mhasport hefyd. Byddai'n well pe bawn wedi mynd ar wyliau i Ddinbych y Pysgod!

**Cyfwelydd:** Roedd 2008 yn eithaf cyffrous hefyd yn doedd?

**Shane:** Oedd. Pan enillodd Cymru y Grand Slam yn y Chwe Gwlad fe sgories i yn erbyn yr Alban, yr Eidal ac Iwerddon. Sgories i fy 41ain cais yn erbyn Ffrainc gan dorri record Cymru. Roedd fy nhad wedi betio £50 tua deng mlynedd cynt y byddwn yn dod yn brif sgoriwr Cymru rhyw ddydd ac enillodd £25,000! Ym mis Tachwedd y flwyddyn honno enilles i Chwaraewr Rhyngwladol y Flwyddyn yr IRB – y Cymro cynta i wneud hynny ac mewn mis enilles i Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn Cymru y BBC.

**Cyfwelydd:** Est ti ymlaen o nerth i nerth! Dau gais pan enillodd Cymru yn erbyn yr Ariannin yn 2009 yn gwneud dy gyfanswm mewn gemau rhyngwladol yn 50! Ac mae gen ti ryw arfer o sgorio yn y munudau olaf! Yn erbyn Ffrainc yn 2010 ac yna heddiw!

**Shane:** Roedd heddiw'n arbennig. Dyma fy ngêm olaf. (Rhagfyr 3ydd 2011). Fe sgories i am y 58fed tro yn yr amser ychwanegol! Dramatig a dweud y gwir er i ni golli o 24-18 yn erbyn Awstralia.

**Cyfwelydd:** Sut oeddet ti'n teimlo heddiw?

**Shane:** Dan deimlad oherwydd dw i wedi cael amser gorau fy mywyd. Mi fydda i'n ddyn teulu o hyn ymlaen. Mae Georgie a Carter yn tyfu'n gyflym ac fe fydd y Gweilch yn fy nghadw i'n brysur.